# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

# Cross Party Group on Hospices and Palliative Care

### 8:30-9:30 11 Mawrth 2020, Ystafell Briffio'r Cyfryngau, Senedd

### 8:30-9:30 11 March 2020, Media Briefing Room, Senedd

### Cofnodion | Minutes

## Yn bresennol | In attendance

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood (Cadeirydd) AC | Dawn Bowden AC |
| Dai Lloyd AC | Rhun ap Iorwerth AC |

| | |
|---|---|
| Liz Andrews, Hosbis y Ddinas | Gwyneth Sweatman, Marie Curie |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd | Tracy Jones, Tŷ Hafan |
| Andy Goldsmith, Ty Gobaith/Hope House | Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos |
| Hywel Morgan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Thomas Davies, Macmillan |
| Dr Karen Pardy, Clwstwr Meddygon Teulu De-orllewin Caerdydd | Catrin Edwards, Hospices UK (Ysgrifennydd) |
| Carol Killa, Tŷ Hafan | Lewis Davies, Deryn |
| Matt Greenough, Tŷ Hafan | Dr Rachel Hughes, Dotiau |
| Carys Stevens Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cathy Owens, Deryn |
| Tracy Livingstone, Hosbis Tŷ'r Eos (drwy gyfrwng Skype) | Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos (drwy gyfrwng Skype) |

## Ymddiheuriadau | Apologies

| | |
|---|---|
| Helen Mary Jones AC | Llyr Gruffydd AC |
| Delyth Jewell AC | Lynne Neagle AC |
| Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn | Monica Reardon, Marie Curie |
| Grant Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Sarah Davies-Lloyd, Marie Curie |
| Helen Davies, Ymddiriedolaeth Bracken | Fiona Liddle, CGGC |
| Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant | Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant |
| Gethin Rhys, Cytûn | |

## Croeso | Welcome

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y wynebau newydd.

Cadarnhaodd Gwyneth Sweatman a Tracy Jones fod cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019, yn gywir.

## Diweddariad ers y cyfarfod diwethaf | Update since last meeting

Aeth y Cadeirydd drwy'r holl wybodaeth arwyddocaol diweddaraf a'r papurau i'w nodi, gan gynnwys:

Tachwedd 2019: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cyfarfod Llawn ar hosbisau a gofal lliniarol. Pasiwyd cynnig diwygiedig, ond nododd y Gweinidog ei gefnogaeth, gan gyfeirio at adolygiad o'r cyllid ar gyfer hosbisau oedolion a phlant a'r Cynllun Profedigaeth arfaethedig

Rhagfyr 2019: Cyhoeddwyd yr Adolygiad o Wasanaethau Profedigaeth. Roedd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar hyd a lled Cymru, yn enwedig y cymorth a gynigir ym maes marwolaethau newyddenedigol a chwnsela un i un.

Ionawr 2020: Cwblhaodd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes y drafft cyntaf o'i adroddiad yn dangos hynt y Cynllun Cyflawni Diwedd Oes, a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2020. Mae hyn yn nodi bod y rhan fwyaf o'r camau wedi'u cwblhau, ac eithrio datblygiadau TG a bylchau yn y gwasanaeth 24/7 mewn gofal lliniarol pediatreg.

Ionawr 2020: Bwrdd crwn cyllido hosbis plant a noddwyd gan Dawn Bowden AC,

Ionawr 2020: Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol a'r Gweinidog (papurau wedi'u rhannu) yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am hynt argymhellion ymchwiliad y Grŵp a chyllid i hosbisau. Ers hynny mae Trysorlys EM wedi cadarnhau nad yw'r cyllid o £25m ar gyfer hosbisau yn Lloegr yn arian newydd ac felly ni fydd yn arwain at symiau canlyniadol Barnett i Gymru.

Chwefror 2020: Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer Unigrwydd ac Unigedd, sy'n cyfeirio at gyfraniad gwaith Gwlad Dosturiol.

## Rhaglen waith y Grŵp Trawsbleidiol 2020-21 | CPG work plan for 2020-21

Nododd Mark Isherwood ein bod, yn dilyn llwyddiant ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol yn 2018, yn bwriadu dechrau ar ddarn arall o waith sylweddol yn awr drwy archwilio'n drylwyr ddatblygiad Cymru fel Gwlad Dosturiol. Rydym yn bwriadu casglu tystiolaeth a rhannu gwybodaeth gan bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector cymunedol gyda'r nod o gyflwyno adroddiad a datblygu argymhellion i Lywodraeth Cymru yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd MI a Rhun ap Iorwerth at ddarlith Marie Curie gan yr Athro Allan Kellehear, sef Siarter Cymunedau Tosturiol a Dinasoedd Tosturiol fel cyflwyniad defnyddiol i'r maes hwn.

Rhoddodd Catrin Edwards gyflwyniad byr i gyd-destun y polisi sydd wrth wraidd yr ymdrechion i greu Cymru Dosturiol, gan nodi datblygiad tosturi a charedigrwydd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus, ac ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2018 i sicrhau mai Cymru yw'r Wlad Dosturiol gyntaf yn y

byd. Fel gwlad dosturiol, byddai Cymru yn gweithredu ar sail iechyd y cyhoedd a mantais hynny yw y byddai'n cyrraedd rhagor o bobl, gan wneud hynny'n gynharach ac yn y gymuned. Er bod Cymunedau Tosturiol wedi datblygu drwy'r mudiad gofal lliniarol a diwedd oes, ac yn aml yn cael eu sefydlu a'u cefnogi gan hosbisau, byddai cenedl gwbl dosturiol yn ystyried cynnwys mentrau eraill o dan yr un ymbarél, gan gynnwys gwasanaethau gofal, dementia, heneiddio'n dda a chymunedau sy'n ystyriol o awtistiaeth.

Dosbarthwyd cynllun gwaith drafft ymlaen llaw i bawb a oedd yn bresennol. Roedd yn cynnwys cyfarfodydd arfaethedig a chynlluniau i'r aelodau ymweld â safleoedd a gweld prosiectau Cymunedau Tosturiol ar waith.

## Camau i'w cymryd: Pawb i roi sylwadau ac awgrymiadau i CE ar gyfer ymweliadau i weld Cymunedau Tosturiol. CE i gydgysylltu ymweliadau a rhoi gwybod am ddyddiadau.

## Cyflwyniad | Presentation: Carys Stevens, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Cymunedau Tosturiol ar waith - prosiect 'Law yn Llaw'

Fel cefndir i'r prosiect, rhannodd Carys straeon am gleifion â'r Grŵp.

Roedd John yn 84 oed ac nid oedd yn gallu siarad yn dilyn strôc. Cafodd ei gyfeirio at y gwasanaeath gofal lliniarol yn Ysbyty Bronglais. Tra oedd Carys yn ei gwmni, cydiodd John yn ei llaw ac edrych i fyw ei llygaid drwy'r adeg.  Er ei fod ar ward brysur roedd yn amlwg bod John yn teimlo'n unig.

Aeth Carys hefyd i weld Brian yn ei gartref. Wrth nodi bod ei boen yn cyrraedd '8' ar raddfa o 0 i 10, dywedodd Brian fod y boen 'yn y gegin'. Y ffaith ei bod yn anodd iddo fynd â'r ci am dro oedd ymhlith ei bryderon mwyaf.  Drwy'r gwasanaeth Hosbis yn y Cartref, trefnwyd i wirfoddolwr fynd â'r ci am dro dros gyfnod o dri mis, gan ysgafnhau'r baich ar Brian a'i deulu wrth iddo nesáu at ddiwedd oes.

Mae angen gwasanaeth tebyg ar gyfer pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes mewn ysbytai a phob lleoliad arall. Mae'r prosiect 'Law yn Llaw' wedi cael cyllid i gynnig y gwasanaeth hwn.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol. 'Nid oes gan staff ar y ward yr amser i eistedd a sgwrsio bob amser ... Bydd cael gwasanaeth cydymaith yn rhoi tawelwch meddwl i bawb.'

Mae Law yn Llaw yn rhan o gynllun ehangach Ceredigion Tosturiol. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned a'r ysbyty wedi dod ynghyd mewn sesiynau hyfforddi fel y gellir defnyddio pob un lle mae eu hangen, gan ddibynnu ar y trefniadau i'w paru â chlaf. Nod y prosiect yw anfon y gwirfoddolwyr cyntaf i'r ysbyty erbyn mis Ebrill.

Daeth Carys â'i chyflwyniad i ben drwy rannu'r gerdd 'Just', a ysgrifennwyd gan Mererid Hopwood yn ystod Wythnos Byw Nawr 2018.

## Cyflwyniad | Presentation: Dr Karen Pardy, Clwstwr Meddygon Teulu De-orllewin Caerdydd

Cafodd Clwstwr De-orllewin Caerdydd ei ysbrydoli gan fodel Cymunedau Tosturiol Frome, ac mae wedi'i addasu'r model hwnnw yn ôl anghenion penodol y Clwstwr. At y dibene hwn, maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sector

iechyd a’r trydydd sector, a’u gweledigaeth yw diogelu iechyd a lles pawb sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

Ym mis Tachwedd 2018 derbyniodd y clwstwr Gyllid Trawsnewid i ddatblygu model clwstwr carlam, gan ddod â mwy o strwythur i'r clwstwr.

Mae pedair elfen i brosiect Cymunedau Tosturiol y Clwstwr:

- Cymorth yn y gymuned
- Tîm amlddisgyblaeth
- Canolfan gofal integredig
- Cynllunio gofal ymlaen llaw

Mae’r pwyslais ar gynorthwyo pobl pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty ac mae'r ganolfan yn mynd ati i gysylltu â phob unigolyn yn y sefyllfa hon i gael sgwrs am yr hyn sy’n bwysig iddynt.

Mae meddygon teulu yn dweud bod model y tîm amlddisgyblaeth wedi gweddnewid eu gwasanaeth.

Fel clwstwr gofal sylfaenol, ni all y grŵp gyflogi ei weithwyr cymunedol ei hun felly mae'r cysylltwyr lles sydd yn y gymuned eisoes wedi'u hadnabod a'u defnyddio. Mae un yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer gofal diwedd oes.

Mae’r syniad o Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw yn dod yn rhan annatod o bob gwasanaeth, nid dim ond gofal lliniarol arbenigol a meddygon teulu. Mae gweithdai’n cael eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys sawl gweithdy llwyddiannus mewn Mosgiau.

## Trafodaeth | Discussion

Gwahoddwyd Tracy Livingstone a Steve Parry o Hosbis Tŷ’r Eos i rannu’r hyn y maent wedi’i ddysgu o'u profiad yn hybu prosiectau Cymunedau Tosturiol. Mae'r rhain yn fentrau a arweinir gan y gymuned a gwirfoddolwyr ac sy’n gweithredu o’r gwaelod i fyny. Mae'r Hosbis yn cyfrannu drwy ddarparu hyfforddiant arbenigol a thrwy hwyluso’r gwaith o sefydlu prosiect sy'n eiddo i'r gymuned. Yng Nghorwen y sefydlwyd y fenter gymunedol gyntaf  ac mae cymunedau eraill wedi cysylltu â’r hosbis i ofyn iddynt gefnogi mentrau tebyg.

Dywedodd Andy Goldsmith nad yw model y Cymunedau Tosturiol roedd yr Athro Kellehear yn ei hyrwyddo’n ymwneud ag ymestyn y GIG drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr ond yn hytrach, y nod yw grymuso cymunedau i weithredu. Nododd CS y gallai, fel rhan o'r gymuned yng Ngheredigion, ymgymryd â’r fenter hon  - hy mae'r sector iechyd a'r gweithlu yn rhan o'r gymuned yn hytrach nag wahân iddi. Dywedodd KP mai eu dyhead yw i waith Clwstwr De-orllewin Caerdydd roi mwy o lais i ddinasyddion. Nododd MI mai un agwedd allweddol y mae’n rhaid i’r Grŵp Trawsbleidiol ganolbwyntio arni drwy gydol ei waith ar Gymru Dosturiol yw gallu cymunedau a gwasanaethau statudol i ddod o hyd i atebion i broblemau gyda’i gilydd a chydgynhyrchu go iawn.

## Camau i’w cymryd: Sicrhau bod cydgynhyrchu’n ganolog i agenda’r Grŵp Trawsbleidiol

Dywedodd Grant Usmar ei bod yn hanfodol cydweithio â’r sector gofal cymdeithasol fel partner allweddol. Nododd CS a KP fod yr awdurdod lleol yn bartneriaid mewn

timau amlddisgyblaeth. Nododd GU y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn rhan o’r gwaith o wireddu Cymru Dosturiol gan eu bod yn dod ag iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd wrth wneud penderfyniadau.

## UFA | AOB

Dim

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8:30-9:30 24 Mehefin 2020, Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead